# NOSC 2026 Rhif 79

# ADDYSG

# Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer talu grant sy'n dibynnu ar brawf modd ("Grant Dysgu Llywodraeth Cymru") er mwyn helpu i dalu costau astudio, ar gyfer myfyrwyr cymwys 19 oed neu drosodd sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026. Mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr cymwys pa un ai yng Nghymru ynteu rhywle arall yn y Deyrnas Unedig y byddant yn dewis astudio.

Daw'r Cynllun i rym ar 1 Medi 2026 ac mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026 ond cyn 1 Medi 2027.

Bydd Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (Cymru) 2025 (2025 Rhif LlC25-31) yn parhau mewn grym mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025 ond cyn 1 Medi 2026.

# NOSC 2026 Rhif 79

# ADDYSG

# Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (Cymru) 2026

Mae'r Cynllun hwn yn gweithredu o dan adrannau 14, 15 ac 16 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn gymwys mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2026/2027.

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (Cymru) 2026.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cynllun hwn—

ystyr "addysg uwch" ("*higher education*") yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a geir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**);

ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*Member State*") yw Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "Blwyddyn Academaidd 2026/2027" ("*Academic Year 2026/2027*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar—

(a) 1 Medi 2026 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026 a chyn 1 Ionawr 2027;

(b) 1 Ionawr 2027 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 a chyn 1 Ebrill 2027;

(c) 1 Ebrill 2027 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2027 a chyn 1 Gorffennaf 2027;

---

(**1**) 1988 p. 40.

(d) 1 Gorffennaf 2027 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn dechrau ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2027 a chyn 1 Medi 2027;

ystyr "blwyddyn dreth" ("*tax year*") yw blwyddyn dreth 2025 neu flwyddyn dreth 2027, yn ôl yr hyn y mae'r cyd-destun yn ei fynnu;

ystyr "blwyddyn dreth 2025" ("*2025 tax year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2025;

ystyr "blwyddyn dreth 2027" ("*2027 tax year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2027;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais am gymorth yn unol â pharagraff 7;

ystyr "corff dyfarnu cydnabyddedig" ("*recognised awarding body*") yw Cymwysterau'r Alban(**1**), corff dyfarnu sydd wedi ei gymeradwyo ac sy'n cael ei reoleiddio gan Cymwysterau'r Alban yn unol â Deddf Addysg (Yr Alban) 2025(**2**), Cyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesiadau(**3**), cyrff a gydnabyddir o dan adran 132 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**4**) a chyrff neu bersonau a gydnabyddir o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf Addysg 1997(**5**) neu Ran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015(**6**);

ystyr "CThEF" ("*HMRC*") yw Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi;

ystyr "cwrs dynodedig" ("*designated course*"), at ddibenion y Cynllun hwn a Blwyddyn Academaidd 2026/2027, yw cwrs o addysg (ac eithrio addysg uwch) neu hyfforddiant—

(a) sy'n arwain naill ai at gymwysterau hyd at a chan gynnwys Cymwysterau Cenedlaethol Lefel 3 a ddyroddir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig, neu at gyflawni rhaglen ddysgu bersonol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru o dan y maes rhaglen Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith,

(b) a ddarperir gan (neu a gyflenwir gan) sefydliad addysg bellach neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant arall, ac

(c) a gyllidir gan—

---

(**1**) Sefydlwyd Cymwysterau'r Alban fel corff corfforedig gan adran 1 o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 2025 (dsa 11).

(**2**) 2025 dsa 11.

(**3**) Sefydlwyd Cyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesiadau gan Erthygl 73 o Orchymyn Addysg (Gogledd Iwerddon) 1998/1759 (G.I. 13).

(**4**) 2009 p. 22.

(**5**) 1997 p. 44 (wedi ei diddymu bellach, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol).

(**6**) 2015 dccc 5.

(i) Llywodraeth Cymru,

(ii) yr Adran Addysg(**1**), neu

(iii) awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyllido addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau 19 oed neu drosodd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "cyfnod o astudio llawnamser" ("*period of full-time study*") yw cyfnod o astudio ar un neu ragor o gyrsiau dynodedig sy'n cynnwys 500 neu ragor o oriau cyswllt yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027;

ystyr "cyfnod o astudio rhan-amser" ("*period of part-time study*") yw cyfnod o astudio ar un neu ragor o gyrsiau dynodedig sy'n cynnwys dim llai na 275 o oriau cyswllt a dim mwy na 499 o oriau cyswllt yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027;

ystyr "cymorth" ("*support*") yw cymorth ariannol ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cynllun hwn;

ystyr "cytundeb grant dysgu" ("*learning grant agreement*") yw dogfen sy'n cynnwys unrhyw gydnabyddiaethau a chadarnhadau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru;

ystyr "Deddfau Treth Incwm" ("*Income Tax Acts*") yw pob deddfiad sy'n ymwneud â threth incwm, gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau mewn unrhyw ddeddfiadau sy'n ymwneud â threthu incwm ac enillion trethadwy cwmnïau a dosbarthiadau gan gwmnïau sy'n ymwneud â threth incwm;

ystyr "Grant Dysgu Llywodraeth Cymru" ("*Welsh Government Learning Grant*") yw cymorth ariannol ar ffurf grant yn unol â'r Cynllun hwn;

mae i "incwm yr aelwyd" ("*household income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 10;

cyfrifir "incwm gweddilliol" ("*residual income*") yn unol â pharagraffau 11 i 14;

ystyr "incwm trethadwy" ("*taxable income*") yw cyfanswm yr incwm y codir treth incwm ar y person hwnnw amdano fel y'i penderfynir—

(i) yng Ngham 1 o'r cyfrifiad yn adran 23 o Ddeddf Treth Incwm 2007(**2**),

---

(**1**) https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education.

(**2**) 2007 p. 3; diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Cyllid 2009 (p. 10), Atodlen 1, paragraff 6(o)(i), gan Ddeddf Cyllid 2013 (p. 29), Atodlen 3, paragraff 2(2), gan Ddeddf Cyllid 2014 (p. 26), Atodlen 17(3), paragraff 19, a chan Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 2023 (p. 30), Atodlen 2, paragraffau 10(2) a 13(3)(f).

(ii) yn unol â deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth sy'n gymwys i incwm y person, cyn cymhwyso unrhyw ddidyniadau neu ryddhadau, ac nad yw'n cynnwys y £30,000 cyntaf o unrhyw daliadau dileu swydd a geir, neu

(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth yn unol â hi yn y cyfnod hwnnw cyn cymhwyso unrhyw ddidyniadau neu ryddhadau, ac nad yw'n cynnwys y £30,000 cyntaf o unrhyw daliadau dileu swydd a geir (ac eithrio fel y'i darperir fel arall ym mharagraff 13), sy'n gymwys;

ystyr "llofnod electronig" ("*electronic signature*") yw cymaint o unrhyw beth ar ffurf electronig ag sydd—

(a) wedi ei ymgorffori mewn unrhyw gyfathrebiad electronig neu ddata electronig neu sydd fel arall wedi ei gysylltu yn rhesymegol â hwy, a

(b) yn honni ei fod wedi ei ymgorffori neu wedi ei gysylltu felly at ddiben cael ei ddefnyddio i gadarnhau bod y cyfathrebiad neu'r data yn ddilys, bod y cyfathrebiad neu'r data yn gyflawn, neu'r ddau;

caiff "llofnodi" ("*signed*") gynnwys llofnodi drwy lofnod electronig ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru;

mae i "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 3;

mae i "myfyriwr cymwys annibynnol" ("*independent eligible student*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 15;

ystyr "oriau cyswllt" ("*contact hours*") yw'r cyfnod o amser, a fynegir mewn oriau, y mae myfyriwr cymwys yn cael ei addysgu neu ei oruchwylio mewn cysylltiad ag ef yn ystod cyfnodau o astudio neu ymarfer;

ystyr "partner" ("*partner*")—

(a) mewn perthynas â myfyriwr cymwys annibynnol, yw unrhyw un o'r canlynol—

(i) priod y myfyriwr cymwys annibynnol,

(ii) partner sifil y myfyriwr cymwys annibynnol,

(iii) person sy'n byw fel arfer gyda'r myfyriwr cymwys annibynnol fel ei bartner sifil, neu

(iv) person sy'n byw fel arfer gyda'r myfyriwr cymwys annibynnol fel ei briod;

(b) mewn perthynas â rhiant myfyriwr cymwys, yw unrhyw un o'r canlynol, ac eithrio rhiant arall i'r myfyriwr cymwys—

(i) priod rhiant y myfyriwr cymwys,

(ii) partner sifil rhiant y myfyriwr cymwys,

(iii) person sy'n byw fel arfer gyda rhiant y myfyriwr cymwys fel priod y rhiant, neu

(iv) person sy'n byw fel arfer gyda rhiant y myfyriwr cymwys fel partner sifil y rhiant;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw rhiant naturiol neu fabwysiadol.

(2) Pan fo incwm trethadwy person yn cael ei gyfrifiannu yn unol â deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth, ac eithrio drwy gyfeirio at gyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 5 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn, bernir mai ystyr "blwyddyn dreth 2025" a "blwyddyn dreth 2027" yw pa gyfnod bynnag o ddeuddeng mis sy'n gymwysadwy at ddibenion cyfrifiannu incwm trethadwy person o dan y ddeddfwriaeth treth incwm honno sy'n dod i ben yn union cyn 1 Medi 2025 a 1 Medi 2027, yn eu trefn.

(3) Ac eithrio fel y'i darperir ym mharagraff 13(5), pan fo incwm yn dod i law mewn arian cyfred ac eithrio sterling, gwerth yr incwm hwnnw at ddibenion y Cynllun hwn—

(a) os prynir sterling gyda'r incwm, yw'r swm mewn sterling a geir;

(b) fel arall, yw gwerth y sterling y byddai'r incwm yn ei brynu gan ddefnyddio'r gyfradd ar gyfartaledd ar gyfer y mis y daeth i law ynddo, sef cyfradd a gyhoeddir gan CThEF ar gyfer y flwyddyn galendr sy'n dod i ben cyn dechrau'r flwyddyn y mae incwm yr aelwyd i'w asesu mewn cysylltiad â hi(**1**).

# RHAN 2

## CYMHWYSTRA

### Cymhwystra

**3.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio llawnamser neu gyfnod o astudio rhan-amser yr ymgymerir ag ef yn ystod Blwyddyn Academaidd

(**1**) https://www.gov.uk/government/collections/exchange-rates-for-customs-and-vat.

2026/2027, yn ddarostyngedig i’r Cynllun hwn ac yn unol ag ef.

(2) Mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig—

(a) os yw Gweinidogion Cymru, wrth asesu cais y person am gymorth, yn penderfynu bod y person yn dod o fewn un o’r categorïau a nodir—

(i) ym mharagraff 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 11, 13, 14, 16, 18, 20 neu 21 o Ran 2 o’r Atodlen i’r Cynllun hwn, neu

(ii) ym mharagraff 8, 10, 12, 15, 17 neu 19 o Ran 2 o’r Atodlen i’r Cynllun hwn pan fo is-baragraff (3) yn gymwys,

(b) os cyrhaeddodd y person 19 oed ar 1 Medi 2026 neu cyn y dyddiad hwnnw,

(c) os nad yw’r person yn anghymwys oherwydd is-baragraff (4), a

(d) os yw’r person wedi llofnodi cytundeb grant dysgu.

(3) Mae’r paragraff hwn yn gymwys—

(a) mewn cysylltiad â chwrs dynodedig—

(i) pan benderfynodd Gweinidogion Cymru, wrth asesu cais am gymorth gan berson (“A”), fod A yn dod o fewn un o’r categorïau a nodir ym mharagraff 8, 10, 12, 15, 17 neu 19 o Ran 2 o’r Atodlen mewn perthynas â blwyddyn academaidd o’r cwrs sy’n dechrau cyn 1 Medi 2021, neu

(ii) pan fyddai Gweinidogion Cymru wedi penderfynu felly pe bai A wedi gwneud cais am gymorth yn unol â’r Cynllun hwn mewn perthynas â blwyddyn academaidd o’r cwrs sy’n dechrau cyn y dyddiad hwnnw, a

(b) pan fo A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â’r cwrs hwnnw neu â chwrs y mae A yn trosglwyddo iddo yn unol â pharagraff 6.

(4) Mae person yn anghymwys—

(a) os yw’r person, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi dangos ei fod yn anffit oherwydd ei ymddygiad i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru,

(b) os yw’r person eisoes wedi cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’i bresenoldeb ar unrhyw gwrs yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027,

(c) os rhoddwyd i’r person neu os talwyd iddo mewn perthynas â’i bresenoldeb ar y cwrs—

(i) cyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â rhaglen dysgu seiliedig ar waith([1]), neu

(ii) unrhyw gymorth ariannol arall o gronfeydd cyhoeddus a benderfynir gan Weinidogion Cymru, neu

(d) os yw'r cwrs dynodedig yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2028 a'r unig baragraff neu baragraffau yn Rhan 2 o'r Atodlen y mae'r person yn dod o'i fewn neu o'u mewn yw un neu ragor o baragraffau 13 neu 14.

**Cymhwyso i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd**

**4.**—(1) Pan fo un o'r digwyddiadau yn is-baragraff (2) yn digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd, caiff y ceisydd gymhwyso i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

(1) Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys ar y sail—

(i) bod y myfyriwr neu briod, partner sifil neu riant y myfyriwr yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;

(ii) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 neu'n berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir;

(iii) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd Calais;

(iv) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu person a ddisgrifir ym mharagraff 14(1)(a)(i) o'r Atodlen;

(v) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â hawl i breswylio'n barhaol neu ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio;

---

(**1**) Cyflwynir Rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith o dan adrannau 31 i 35 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 (p. 50) ac adrannau 60 a 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 18 o'r Atodlen;

(vii) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan, neu'n briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysblentyn i berson o'r fath;

(viii) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu'n briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysblentyn i berson o'r fath;

(ix) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraffau 2(1)(a) neu 3(1)(a) o'r Atodlen;

(x) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 9(1)(a) o'r Atodlen.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfrifo hawlogaeth myfyriwr cymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o dan y paragraff hwn yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

D/PC x GDLlC = HA

Yn y fformiwla hon—

ystyr "D" ("*E*") yw nifer diwrnodau'r cwrs dynodedig (heb gynnwys penwythnosau a gwyliau banc) o ddyddiad y digwyddiad hyd at ddiwrnod olaf y cwrs dynodedig ym mlwyddyn academaidd 2026/2027 yn gynhwysol;

ystyr "GDLlC" ("*WGLG*") yw'r hawlogaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 8 neu 9 fel y bo'n briodol;

ystyr "HA" ("*RE*") yw'r hawlogaeth a ailgyfrifwyd;

ystyr "PC" ("*AA*") yw nifer diwrnodau'r cwrs dynodedig (heb gynnwys penwythnosau a gwyliau banc) ym mlwyddyn academaidd 2026/2027 o ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig hyd at ddiwrnod olaf y cwrs dynodedig yn gynhwysol.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i'r termau a ganlyn yr un ystyr ag yn yr Atodlen—

"aelod o deulu" ("*family member*");

"ffoadur" ("*refugee*");

"gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*");

"person sydd â chaniatâd Calais" ("*person with Calais leave*");

"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*");

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*");

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");

"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*");

"person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" ("*person granted leave to enter or remain as a protected partner*");

"rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio" ("*residence scheme immigration rules*").

**Dilyniant academaidd**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 6, ni chaiff Gweinidogion Cymru dalu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2026/2027 neu ran o'r flwyddyn honno oni bai eu bod wedi eu bodloni, ar sail resymol, fod y cyfnod o astudio o dan sylw yn golygu dilyniant academaidd i'r myfyriwr o'i gymharu ag astudiaethau yr ymgymerodd y myfyriwr â hwy mewn blynyddoedd academaidd blaenorol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i fyfyriwr cymwys am flwyddyn academaidd sy'n cael ei hail-wneud os yw'r flwyddyn honno yn ail-wneud blwyddyn academaidd flaenorol cwrs dynodedig nad oedd y myfyriwr yn gallu ei chwblhau am resymau a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn rhai anorchfygol.

**Trosglwyddiadau**

**6.** Pan fo myfyriwr sydd â hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn trosglwyddo i gwrs dynodedig arall sy'n gyfnod o astudio llawnamser neu'n gyfnod o astudio rhan-amser yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, caiff Gweinidogion Cymru dalu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i'r myfyriwr hwnnw am weddill Blwyddyn Academaidd 2026/2027, ac eithrio na fydd unrhyw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn daladwy—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, ar sail resymol, nad yw'r cwrs dynodedig newydd yn golygu dilyniant academaidd i'r myfyriwr o'i gymharu â'r cwrs dynodedig y mae wedi trosglwyddo ohono, a

(b) os yw'r myfyriwr yn ymrestru ar y cwrs dynodedig y mae'n trosglwyddo iddo fwy nag 20 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs blaenorol.

# RHAN 3

## CEISIADAU A HAWLOGAETH

### Ceisiadau

**7.**—(1) Bydd ceisydd yn gwneud cais am gymorth drwy lenwi a chyflwyno i Weinidogion Cymru—

(a) y cytundeb grant dysgu wedi ei lofnodi gan y ceisydd, a

(b) os yw'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, gais ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru gyda'r cytundeb grant dysgu ac unrhyw gais, a hynny—

(a) heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o naw mis gan ddechrau â diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig yn y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn ymwneud â hi, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl, gan roi sylw i amgylchiadau achos penodol, ei bod yn briodol estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais, ar ôl y cyfnod o amser a ddisgrifir ym mharagraff (a).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i benderfynu a yw'r ceisydd yn fyfyriwr cymwys, a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth a swm y cymorth sy'n daladwy, os oes rhywfaint.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd pa un a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth ai peidio, ac os yw'r ceisydd yn cymhwyso, swm y cymorth sy'n daladwy, os oes rhywfaint, mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2026/2027.

(5) Caiff ceisydd wneud cais am ailasesiad, neu caiff Gweinidogion Cymru ailasesu a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth, os bydd amgylchiadau sy'n berthnasol i gais y ceisydd yn newid, naill ai cyn neu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027.

(6) Mae is-baragraffau (3) a (4) yn gymwys mewn perthynas ag ailasesiad o'r fath.

(7) Pan fo ailasesiad yn cael ei gynnal o dan is-baragraff (5) a bo Gweinidogion Cymru yn gwneud hysbysiad dilynol o dan is-baragraff (4) fod y ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y cawsant gais y ceisydd am ailasesiad, neu

(b) ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y newidiodd amgylchiadau'r ceisydd.

**Hawlogaeth i gael grant**

**8.**—(1) (Yn ddarostyngedig i baragraffau 9 ac 16) mae myfyriwr cymwys sy’n cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio llawnamser yn unol â’r Cynllun hwn â hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru fel a ganlyn—

(a) pan fo incwm yr aelwyd yn £6,120 neu lai neu pan fo’r myfyriwr yn berson sy’n ymadael â gofal, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £1,919,

(b) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £6,120 ond nid yn fwy na £12,235, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £959, ac

(c) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £12,235 ond nid yn fwy na £18,370, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £576.

(2) (Yn ddarostyngedig i baragraffau 9 ac 16) mae myfyriwr cymwys sy’n cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio rhan-amser yn unol â’r Cynllun hwn â hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru fel a ganlyn—

(a) pan fo incwm yr aelwyd yn £6,120 neu lai neu pan fo’r myfyriwr yn berson sy’n ymadael â gofal, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £959,

(b) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £6,120 ond nid yn fwy na £12,235, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £576, ac

(c) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £12,235 ond nid yn fwy na £18,370, mae’r myfyriwr â hawlogaeth i gael £384.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, mae myfyriwr cymwys yn “person sy’n ymadael â gofal”—

(a) os yw’r myfyriwr yn dechrau’r cwrs dynodedig ym mlwyddyn academaidd 2026/2027,

(b) os yw’r myfyriwr o dan 25 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(c) os yw’r myfyriwr yn gategori o berson ifanc, neu wedi bod yn gategori o berson ifanc, a ddiffinnir yn adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) neu yn rhinwedd yr adran honno, a

(d) os, rhwng pen-blwydd y myfyriwr yn bedair ar ddeg oed a diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig—

(i) oedd y myfyriwr yn derbyn gofal, wedi ei faethu neu wedi ei letya (o fewn ystyr

(**1**) 2014 dccc 4.

adrannau 74 a 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) am gyfnod cyfanredol o 13 o wythnosau neu ragor, neu

(ii) oedd y myfyriwr yn berson yr oedd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (o fewn yr ystyr a roddir i "special guardianship order" gan adran 14A o Ddeddf Plant 1989(**1**)) mewn grym mewn cysylltiad ag ef am gyfnod o 13 o wythnosau neu ragor.

# RHAN 4

## PERSONAU SY'N YMADAEL Â'R DDALFA NEU LEOLIAD CADW

### Personau sy'n ymadael â'r ddalfa neu leoliad cadw

**9.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i bersonau a gedwir, yn dilyn eu heuogfarnu, mewn—

(a) carchar (o fewn ystyr "prison" yn Neddf Carchardai 1952(**2**)), neu

(b) sefydliad troseddwyr ifanc (fel y crybwyllir "young offender institution" yn adran 43 o'r Ddeddf honno),

ac a ryddheir ar drwydded dros dro i fynychu cwrs dynodedig (cyfeirir at unrhyw berson o'r fath fel "person dan gadwad" at ddibenion y paragraff hwn).

(2) Caiff person dan gadwad wneud cais am gymorth yn unol â pharagraff 7 ar unrhyw adeg cyn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa ym Mlwyddyn Academaidd 2026/2027, ond ni fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried cais o'r fath cyn bo'r person wedi ei ryddhau o'r ddalfa.

(3) Mae person dan gadwad—

(a) sy'n gwneud cais am gymorth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/2027 cyn cwblhau ei ddedfryd, yn unol ag is-baragraff (2),

(b) sy'n fyfyriwr cymwys, ac

(c) sy'n cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio llawnamser yn unol â'r Cynllun hwn,

â hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, a gyfrifir yn unol ag is-baragraff (5) ac yn ddarostyngedig bob amser i ddarpariaethau paragraff 16.

---

(**1**) 1989 p. 41; mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**2**) 1952 p. 52.

(4) Mae person dan gadwad—

(a) sy'n gwneud cais am gymorth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/2027 cyn cwblhau ei ddedfryd, yn unol ag is-baragraff (2),

(b) sy'n fyfyriwr cymwys, ac

(c) sy'n cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio rhan-amser yn unol â'r Cynllun hwn,

â hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a gyfrifir yn unol ag is-baragraff (5) ac yn ddarostyngedig bob amser i ddarpariaethau paragraff 16.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfrifo hawlogaeth myfyriwr cymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o dan y paragraff hwn yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

HA = GDLlC x FfDRh

Yn y fformiwla hon—

ystyr "FfDRh" ("*RDF*") yw—

(a) 100% pan fo'r myfyriwr cymwys yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod tymor cyntaf cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o naill ai un, dau neu dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;

(b) 60% pan fo'r myfyriwr cymwys yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod ail dymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;

(c) 50% pan fo'r myfyriwr cymwys yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod ail dymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o ddau dymor mewn un flwyddyn academaidd;

(d) 30% pan fo'r myfyriwr cymwys yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod trydydd tymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;

ystyr "GDLlC" ("*WGLG*") yw—

(a) £1,919 mewn perthynas â pherson dan gadwad sy'n dod o fewn is-baragraff (3);

(b) £959 mewn perthynas â pherson dan gadwad sy'n dod o fewn is-baragraff (4);

ystyr "HA" ("*RE*") yw'r hawlogaeth a ailgyfrifwyd.

# RHAN 5

## ASESIAD ARIANNOL

### Incwm yr aelwyd

**10.**—(1) Cyfrifir incwm yr aelwyd at ddiben y Cynllun hwn yn unol â'r paragraff hwn a pharagraffau 11 i 14.

(2) Incwm yr aelwyd—

(a) yn achos myfyriwr cymwys nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, yw—

(i) incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys (a gyfrifir yn unol â pharagraff 12), neu

(ii) incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr cymwys (a gyfrifir yn unol â pharagraff 13), a gyfrifir yn gyfanred ag incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (a gyfrifir yn unol â pharagraff 14), ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 13(7),

pa un bynnag o'r ddau incwm yw'r mwyaf;

(b) yn achos myfyriwr cymwys annibynnol a chanddo bartner, yw incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys annibynnol (a gyfrifir yn unol â pharagraff 11(1)), neu incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys annibynnol (a gyfrifir yn unol â pharagraff 11(2)), pa un bynnag o'r ddau incwm yw'r mwyaf;

(c) yn achos myfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner, yw incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys annibynnol (a gyfrifir yn unol â pharagraff 11(1)).

### Incwm gweddilliol myfyrwyr cymwys annibynnol a'u partneriaid

**11.**—(1) Incwm gweddilliol myfyriwr cymwys annibynnol yw—

(a) yn achos myfyriwr sy'n gwneud cais am gymorth am y tro cyntaf mewn cysylltiad â'i gwrs dynodedig yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, incwm y myfyriwr hwnnw o bob ffynhonnell mewn cysylltiad â'r flwyddyn dreth 2025, minws unrhyw symiau a ddisgrifir yn is-baragraff (4) (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu wrth gyfrifo incwm trethadwy y myfyriwr), neu

(b) yn achos myfyriwr sy'n parhau â chwrs dynodedig a ddechreuodd cyn Blwyddyn Academaidd 2026/2027, ac y rhoddwyd cymorth iddo yn flaenorol mewn cysylltiad â'r

cwrs hwnnw, incwm y myfyriwr hwnnw o bob ffynhonnell mewn cysylltiad â'r flwyddyn dreth 2027, minws unrhyw symiau a ddisgrifir yn is-baragraff (4) (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu wrth gyfrifo incwm trethadwy y myfyriwr).

(2) Penderfynir incwm gweddilliol partner myfyriwr cymwys annibynnol yn unol â pharagraff 13, ac eithrio is-baragraffau (6) i (8) o baragraff 13, gan ddehongli cyfeiriadau at riant y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner y myfyriwr cymwys annibynnol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod y myfyriwr cymwys annibynnol a'i bartner wedi eu gwahanu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, penderfynir incwm y partner drwy gyfeirio at incwm y partner, wedi ei rannu â hanner cant a dau ac wedi ei luosi â nifer yr wythnosau cyflawn ym Mlwyddyn Academaidd 2026/2027 y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad yw'r myfyriwr cymwys annibynnol a'i bartner wedi eu gwahanu mewn cysylltiad â hwy.

(4) At ddiben penderfynu incwm gweddilliol myfyriwr cymwys annibynnol, caniateir didynnu'r symiau a ganlyn o incwm trethadwy y myfyriwr cymwys annibynnol (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu wrth gyfrifo'r incwm trethadwy)—

(a) swm gros y canlynol—

(i) unrhyw bremiwm neu swm arall a delir yn ystod y flwyddyn dreth gan y myfyriwr cymwys annibynnol mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y rhoddir rhyddhad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(**1**), neu

(ii) pan fo incwm y myfyriwr cymwys annibynnol yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef yn ystod y flwyddyn dreth pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r Deddfau Treth Incwm,

(b) swm unrhyw daliad dileu swydd a geir yn ystod y flwyddyn dreth, hyd at uchafswm o £30,000,

(c) swm gros y cyflogau a delir yn ystod y flwyddyn dreth mewn cysylltiad â chymorth yn y cartref oherwydd analluedd y myfyriwr cymwys annibynnol, neu analluedd partner y myfyriwr cymwys, a

---

(**1**) 2004 p. 12.

(d) swm gros y treuliau mewn cysylltiad â chyflogaeth yn ystod y flwyddyn dreth, yr hawliwyd rhyddhad treth ar ei gyfer.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm gweddilliol ar gyfer blwyddyn dreth 2027 myfyriwr cymwys annibynnol sy'n dod o fewn is-baragraff (1)(a), o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr, yn debygol o fod yn llai nag incwm gweddilliol y myfyriwr ym mlwyddyn dreth 2025, i'r graddau hynny y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe seilid yr hawlogaeth ar flwyddyn dreth 2027, rhaid iddynt, at ddiben galluogi'r myfyriwr i fynychu'r cwrs heb ddioddef caledi, ganfod yr incwm gweddilliol ar gyfer blwyddyn dreth 2027.

**Incwm gweddilliol myfyriwr cymwys nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol**

**12.**—(1) Incwm gweddilliol myfyriwr cymwys nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol yw incwm trethadwy y myfyriwr hwnnw ar gyfer blwyddyn dreth 2025.

(2) At ddiben penderfynu incwm gweddilliol myfyriwr cymwys, caniateir didynnu'r symiau a ganlyn o incwm trethadwy y myfyriwr cymwys (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu wrth gyfrifo'r incwm trethadwy)—

(a) swm gros y canlynol—

(i) unrhyw bremiwm neu swm arall a delir yn ystod y flwyddyn dreth gan y myfyriwr cymwys mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y rhoddir rhyddhad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu

(ii) pan fo incwm y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef yn ystod y flwyddyn dreth pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r Deddfau Treth Incwm,

(b) swm unrhyw daliad dileu swydd a geir yn ystod y flwyddyn dreth, hyd at uchafswm o £30,000,

(c) swm gros y cyflogau a delir yn ystod y flwyddyn dreth mewn cysylltiad â chymorth yn y cartref oherwydd analluedd y myfyriwr cymwys, neu analluedd rhiant y myfyriwr cymwys neu analluedd partner rhiant y myfyriwr cymwys, a

(d) swm gros y treuliau mewn cysylltiad â chyflogaeth yn ystod y flwyddyn dreth, yr hawliwyd rhyddhad treth ar ei gyfer.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys ym mlwyddyn dreth 2027, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr, yn debygol o fod yn llai nag incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys ym mlwyddyn dreth 2025, i'r graddau hynny y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe seilid yr hawlogaeth ar flwyddyn dreth 2027, rhaid iddynt, at ddiben galluogi'r myfyriwr i fynychu'r cwrs heb ddioddef caledi, ganfod yr incwm gweddilliol ar gyfer blwyddyn dreth 2027.

**Incwm gweddilliol rhieni myfyrwyr cymwys**

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau is-baragraffau (2), (6), (7) ac (8), incwm gweddilliol rhiant myfyriwr cymwys yw incwm trethadwy y rhiant hwnnw mewn cysylltiad â blwyddyn dreth 2025 ar ôl cymhwyso is-baragraffau (3), (4), (5) a (9).

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm gweddilliol y rhiant ym mlwyddyn dreth 2027, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o fod yn llai nag incwm gweddilliol y rhiant ym mlwyddyn dreth 2025, i'r graddau hynny y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe seilid yr hawlogaeth ar flwyddyn dreth 2027, rhaid iddynt, at ddiben galluogi'r myfyriwr cymwys i fynychu'r cwrs heb ddioddef caledi, ganfod yr incwm gweddilliol ar gyfer blwyddyn dreth 2027.

(3) Pan fo rhiant y myfyriwr cymwys yn bodloni Gweinidogion Cymru fod ei incwm, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn deillio o elw busnes y mae'n ei gynnal neu broffesiwn y mae'n ei ddilyn, yna ystyr unrhyw gyfeiriad yn y paragraff hwn at flwyddyn dreth yw'r cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth o dan sylw ac y mae cyfrifon yn cael eu cadw mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw neu'r proffesiwn hwnnw.

(4) Pan fo rhiant myfyriwr cymwys yn cael unrhyw incwm nad yw'n rhan o incwm trethadwy y rhiant dim ond oherwydd—

(a) nad yw'r rhiant yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth,

(b) nad yw'r incwm yn deillio yn y Deyrnas Unedig nac mewn Aelod-wladwriaeth, neu

(c) bod yr incwm yn deillio o swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth, y mae incwm ohoni neu ohono yn esempt rhag treth yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth,

mae incwm trethadwy y rhiant yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion y Cynllun hwn fel pe bai'r incwm hwnnw yn rhan o incwm trethadwy y rhiant.

(5) Pan fo incwm rhiant y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu fel pe bai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth, fe'i cyfrifiennir, o dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn, yn arian cyfred yr Aelod-wladwriaeth honno, ac incwm rhiant y myfyriwr cymwys at ddibenion y Cynllun hwn yw gwerth sterling yr incwm hwnnw a benderfynir yn unol â'r gyfradd ar gyfartaledd a gyhoeddir gan CThEF o bryd i'w gilydd(**1**).

(6) Pan fo un o rieni'r myfyriwr cymwys yn marw naill ai cyn neu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, a bod incwm y rhiant hwnnw wedi ei ystyried, neu y byddai'n cael ei ystyried, at ddiben penderfynu incwm yr aelwyd—

(a) pan fo'r rhiant yn marw cyn Blwyddyn Academaidd 2026/2027, penderfynir incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi, neu

(b) pan fo'r rhiant yn marw yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, incwm yr aelwyd yw cyfanred—

(i) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir drwy gyfeirio at incwm y ddau riant, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o Flwyddyn Academaidd 2026/2027 pan oedd y ddau riant yn fyw, a

(ii) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o Flwyddyn Academaidd 2026/2027 sy'n weddill ar ôl marwolaeth y rhiant arall.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rhieni'r myfyriwr cymwys wedi eu gwahanu drwy gydol Blwyddyn Academaidd 2026/2027, penderfynir incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at incwm pa riant bynnag yw'r mwyaf priodol ym marn Gweinidogion Cymru o dan yr amgylchiadau.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod y rhieni wedi eu gwahanu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, penderfynir incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at gyfanred—

(a) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir yn unol ag is-baragraff (7), sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o Flwyddyn Academaidd 2026/2027 y mae'r rhieni wedi eu gwahanu ynddi, a

---

(**1**) https://www.gov.uk/government/collections/exchange-rates-for-customs-and-vat.

(b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir fel arall mewn cysylltiad â gweddill Blwyddyn Academaidd 2026/2027.

(9) At ddiben penderfynu incwm gweddilliol rhiant myfyriwr cymwys, caniateir didynnu'r symiau a ganlyn o incwm trethadwy y rhiant (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu wrth gyfrifo'r incwm trethadwy)—

(a) swm gros y canlynol—

(i) unrhyw bremiwm neu swm arall a delir yn ystod y flwyddyn dreth gan riant y myfyriwr cymwys mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y rhoddir rhyddhad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu

(ii) pan fo incwm rhiant y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef yn ystod y flwyddyn dreth pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r Deddfau Treth Incwm,

(b) swm gros y cyflogau a delir yn ystod y flwyddyn dreth mewn cysylltiad â chymorth yn y cartref oherwydd analluedd—

(i) y myfyriwr cymwys,

(ii) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(iii) partner rhiant y myfyriwr cymwys, ac

(c) swm gros y treuliau mewn cysylltiad â chyflogaeth yn ystod y flwyddyn dreth, yr hawliwyd rhyddhad treth ar ei gyfer.

**Incwm gweddilliol partner rhiant myfyriwr cymwys**

**14.**—(1) Penderfynir incwm gweddilliol partner rhiant myfyriwr cymwys, y mae ei incwm gweddilliol yn rhan o incwm yr aelwyd yn rhinwedd paragraff 10(2)(a), yn unol â pharagraff 13, (ac eithrio is-baragraffau (6) i (8) o baragraff 13), gan ddehongli cyfeiriadau at riant y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner rhiant y myfyriwr cymwys.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rhiant y myfyriwr cymwys a phartner rhiant y myfyriwr cymwys wedi eu gwahanu drwy gydol Blwyddyn Academaidd 2026/2027, nid ystyrir incwm y partner wrth benderfynu incwm yr aelwyd.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rhiant y myfyriwr cymwys a phartner rhiant y myfyriwr cymwys wedi eu gwahanu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027, penderfynir incwm y partner drwy gyfeirio at incwm y partner o dan is-baragraff (1) wedi ei rannu â hanner cant a dau ac wedi ei luosi â nifer

yr wythnosau cyflawn ym Mlwyddyn Academaidd 2026/2027 pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad yw rhiant y myfyriwr cymwys a phartner rhiant y myfyriwr cymwys wedi eu gwahanu.

(4) Pan fo rhiant myfyriwr cymwys yn cael mwy nag un partner ym Mlwyddyn Academaidd 2026/2027, mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob un ohonynt.

**Myfyriwr cymwys annibynnol**

**15.** At ddiben y Cynllun hwn mae myfyriwr cymwys sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn yn fyfyriwr cymwys annibynnol—

(a) pan fo'r ceisydd yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig;

(b) pan fo'r ceisydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, pa un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn dal mewn bodolaeth ai peidio;

(c) pan na fo gan y ceisydd riant sy'n fyw;

(d) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad oes modd, ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, ddod o hyd i'r naill na'r llall o rieni'r ceisydd neu nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r naill neu'r llall ohonynt;

(e) pan na fo'r ceisydd wedi cyfathrebu â'r naill riant na'r llall yn ystod y cyfnod o un flwyddyn cyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig neu os yw'r ceisydd, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi dangos ar seiliau eraill ei fod wedi ymddieithrio oddi wrth ei rieni fel nad oes modd cymodi;

(f) pan fu'r ceisydd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu, yn ôl y digwydd, adran 22 o Ddeddf Plant 1989 drwy gydol unrhyw gyfnod o dri mis sy'n dod i ben ar neu ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y ceisydd ei ben-blwydd yn 16 oed a chyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, ac na fu o dan ofal neu reolaeth ei rieni ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o'i ben-blwydd yn 16 oed ymlaen;

(g) pan fo rhieni'r ceisydd yn preswylio y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar a'r Undeb Ewropeaidd a bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni naill ai—

(i) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at eu hincwm gweddilliol yn gosod y rhieni hynny mewn perygl, neu

(ii) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni hynny, o ganlyniad i gyfrifiad mewn perthynas â pharagraff 10, anfon unrhyw arian perthnasol i'r Deyrnas Unedig;

(h) pan fo paragraff 13(7) yn gymwys a bod y rhiant mwyaf priodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwnnw wedi marw (ni waeth a oedd gan y rhiant o dan sylw bartner ai peidio);

(i) pan fo'r ceisydd yn aelod o urdd grefyddol ac yn preswylio yn un o dai'r urdd honno ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig;

(j) pan fo'r ceisydd yn gofalu am berson sydd o dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, neu y mae'n dod i'w ran i ymgymryd â gofal person sydd o dan 18 oed yn ystod Blwyddyn Academaidd 2026/2027;

(k) pan fo'r ceisydd ("A" yn yr is-baragraff hwn) wedi ei gynnal ei hun o'i enillion am unrhyw gyfnod neu gyfnodau sy'n dod i ben cyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, a'r rheini'n gyfnodau nad ydynt (o'u cyfrifo'n gyfanred) yn llai na thair blynedd, ac at ddibenion y paragraff hwn, trinnir A fel pe bai'n ei gynnal ei hun o'i enillion yn ystod unrhyw gyfnod—

(i) pan oedd A yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r di-waith o dan unrhyw gynllun a oedd yn cael ei weithredu, ei noddi neu ei gyllido gan unrhyw un o awdurdodau neu asiantaethau'r wladwriaeth, boed cenedlaethol, rhanbarthol neu leol ("awdurdod perthnasol");

(ii) pan oedd A yn cael budd-dal sy'n daladwy gan unrhyw awdurdod perthnasol mewn cysylltiad â pherson sydd ar gael i'w gyflogi ond sy'n ddi-waith;

(iii) pan oedd A ar gael i'w gyflogi ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad ynglŷn â chofrestru a osodwyd gan awdurdod perthnasol fel amod hawlogaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cael hyfforddiant neu fudd-dal;

(iv) pan oedd A yn cael unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a oedd yn cael ei dalu gan unrhyw berson oherwydd anabledd, gwelyfod, anaf neu salwch.

# RHAN 6

## TALIADAU

**Presenoldeb**

**16.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ailgyfrifo hawlogaeth myfyriwr cymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn unol ag is-baragraff (2) os na fu presenoldeb y myfyriwr yn foddhaol ar y cwrs dynodedig y gwnaeth gais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag ef.

(2) Y fformiwla ar gyfer ailgyfrifo yw—

$$HA = \frac{PP}{PC} \times GDLlC$$

Yn y fformiwla hon—

ystyr "GDLlC" ("*WGLG*") yw'r hawlogaeth i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 8 neu 9 fel y bo'n briodol;

ystyr "HA" ("*RE*") yw'r hawlogaeth a ailgyfrifwyd;

ystyr "PC" ("*AA*") yw nifer y diwrnodau, o'r diwrnod cyntaf i'r olaf, o bresenoldeb gofynnol ar y cwrs;

ystyr "PP" ("*PA*") yw nifer y diwrnodau y bu'r myfyriwr yn bresennol ac yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru amdanynt gan y sefydliad (neu'r darparwr) sy'n cyflenwi'r cwrs, gan farnu bod y nifer hwnnw yn cynnwys unrhyw gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch nad yw eu cyfanswm yn fwy na 60 niwrnod.

**Talu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru**

**17.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu (yn ddarostyngedig i is-baragraff (3)) y grant y mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael o dan y Cynllun hwn (fel y caniateir ei ailasesu neu ei ailgyfrifo fel y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun hwn) yn y modd, yn y rhandaliadau (os oes rhai) ac ar yr adegau sy'n briodol yn eu barn hwy, ac wrth arfer eu swyddogaethau o dan y paragraff hwn, cânt wneud taliadau dros dro tra disgwylir cyfrifiad terfynol swm Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn amod o'r hawlogaeth i gael taliad bod y myfyriwr cymwys yn rhoi iddynt fanylion cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, y caniateir i daliadau gael eu gwneud iddo drwy drosglwyddiad electronig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu gadw'n ôl daliad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, neu ran ohono, i fyfyriwr—

(a) os oes unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru gan neu ar ran y myfyriwr yn anghywir mewn unrhyw fodd perthnasol,

(b) os â'r myfyriwr yn fethdalwr neu os yw'n dioddef unrhyw atafael, darafaeliad, atafaeliad neu broses arall sy'n effeithio ar unrhyw rai o asedau'r myfyriwr, neu

(c) os yw’r myfyriwr ar unrhyw adeg, ym marn Gweinidogion Cymru, yn dangos, drwy ei ymddygiad, ei fod yn anffit i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

**Gordalu**

**18.** Rhaid i berson, os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, ad-dalu unrhyw swm a dalwyd i’r person hwnnw o dan y Cynllun hwn sydd, am ba reswm bynnag, yn fwy na swm Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y mae gan y person hwnnw hawlogaeth i’w gael o dan y Cynllun hwn.

**19.** Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ofyn i berson am wybodaeth y maent yn ystyried ei bod yn ofynnol i adennill Grant Dysgu Llywodraeth Cymru oddi wrth y person hwnnw.

**20.** Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am wybodaeth o dan baragraff 19, cânt gadw’n ôl unrhyw daliad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru hyd nes y bydd y person yn darparu’r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu esboniad boddhaol am beidio â chydymffurfio â’r cais.



Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 16/04/2026

# YR ATODLEN Paragraff 3

# Myfyrwyr Cymwys

## RHAN 1

### Dehongli

**1.**—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr "AEE" ("*EEA*") yw'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, sef y diriogaeth a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") (oni nodir fel arall) yw—

(a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, person hunangyflogedig AEE neu berson perthnasol o Ogledd Iwerddon sy'n cael ei drin fel pe bai'n weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE yn rhinwedd paragraff 9(3)—

(i) priod y person hwnnw neu ei bartner sifil,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person, neu

(iii) perthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person hwnnw neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person hwnnw;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—

(i) priod y person hwnnw neu ei bartner sifil, neu

(ii) plentyn y person hwnnw neu blentyn priod neu bartner sifil y person hwnnw;

(c) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—

(i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil, neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(d) mewn perthynas â gwladolyn UE sy’n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—

(i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn, neu

(iii) perthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(e) mewn perthynas â gwladolyn o’r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 14—

(i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil, neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004(**1**) ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o’u teuluoedd i symud a phreswylio’n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

mae i “cyfnod perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant period” gan reoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020;

mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw’r Cytundeb rhwng yr Undeb Ewropeaidd a’i Aelod-wladwriaethau, o’r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o’r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(**2**) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

---

(**1**) OJ L 158, 30.04.2004, tt. 77-123.
(**2**) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L 114, 30.04.02, t. 6.

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabyddir gan Lywodraeth Ei Fawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr "gweithiwr" yw "worker" o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr "gweithiwr mudol AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn weithiwr yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*") yw gwladolyn Twrcaidd—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, a

(b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE;

mae i "gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" yr ystyr a roddir i "United Kingdom national" gan Erthygl 2(d) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

ystyr "gwladolyn UE" ("*EU national*") yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw aelod-wladwriaeth o'r AEE;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth

AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

(a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy’n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd, neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy’n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

mae i “person perthnasol o Ogledd Iwerddon” yr ystyr a roddir i “relevant person of Northern Ireland” gan reolau mewnfudo’r cynllun preswylio;

ystyr “person sydd â chaniatâd Calais” (“*person with Calais leave*”) yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros o dan baragraffau 352J, 352K, 352L neu 352T o’r rheolau mewnfudo (caniatâd Calais a “caniatâd oherwydd llinach” a roddir yn rhinwedd bod yn blentyn dibynnol i berson y rhoddwyd caniatâd Calais iddo);

ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*") yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016(**1**) ac yn unol â'r rheolau mewnfudo, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

ystyr "person sydd â hawliau gwarchodedig" ("*person with protected rights*") yw—

(1) (a) person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion—

(i) a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(ii) sy'n ddinesydd Gwyddelig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971(**2**), gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi,

(iii) sy'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 pan na fo'r cyfnod perthnasol wedi dod i ben, neu

(iv) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion, neu

(b) aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio;

(2) Yn is-baragraff (1)(a)(iv) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio yn ystod y cyfnod pontio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

---

(**1**) 2016 p. 19.
(**2**) 1971 p. 77, mewnosodwyd adran 3ZA gan Ddeddf Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020 (p. 20).

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o’r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;

ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i’r caniatâd hwnnw gael ei roi i’r person;

ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir” (“*person granted leave to enter or remain as a protected partner*”) yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi naill ai fel dioddefwr trais domestig neu gam-drin domestig neu fel partner sydd wedi cael profedigaeth, a roddwyd yn unrhyw un neu ragor o’r achosion a ganlyn—

(a) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo aros cyn 31 Ionawr 2024, o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o’r rheolau mewnfudo—

(i) paragraffau 289B a 289D (dioddefwyr trais domestig),

(ii) paragraffau D-DVILR.1.1. a D-DVILR.1.2. o Atodiad FM (dioddefwyr cam-drin domestig),

(iii) paragraffau 40 ac 41 o Atodiad Lluoedd Arfog (dioddefwyr trais domestig sy’n bartneriaid i aelodau o’r lluoedd arfog),

(iv) paragraff 288, fel person y mae’r gofynion ym mharagraff 287(b) o’r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (priodau neu bartneriaid sifil sydd wedi cael profedigaeth),

(v) paragraffau D-BPILR.1.1. a D-BPILR.1.2. o Atodiad FM (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth),

(vi) paragraffau 36 a 37 o Atodiad Lluoedd Arfog (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth), neu

(vii) paragraff 295N, fel person y mae’r gofynion ym mharagraff 295M o’r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (partneriaid di-briod neu bartneriaid o’r un rhyw sydd wedi cael profedigaeth);

(b) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 31 Ionawr

2024, o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—

(i) Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig, neu

(ii) Atodiad Partner sydd wedi cael Profedigaeth;

(c) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i'r rheolau mewnfudo;

(d) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997;

ystyr "rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*") yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**1**);

mae i "rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio" yr ystyr a roddir i "residence scheme immigration rules" gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**2**);

ystyr "Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020" ("*the 2020 Citizens' Rights Regulations*") yw Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â'r UE) 2020(**3**);

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**4**);

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae "plentyn" i'w ddehongli yn unol â hynny.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd, o ganlyniad i fod wedi symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd—

(a) â'r cwrs presennol, neu

(**1**) 1971 p. 77.
(**2**) 2020 p. 1.
(**3**) O.S. 2020/1209, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1309.
(**4**) 1971 p. 77. Mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

(b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, â chwrs yr ymgymerodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol,

i'w ystyried yn berson sy'n preswylio fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("P" yn yr is-baragraff hwn) i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon, yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci pe bai P wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) P,

(b) priod P neu ei bartner sifil,

(c) rhiant P, neu

(d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil y plentyn,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon, y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci.

(6) At ddibenion is-baragraff (5), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon, y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath,

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o'r fath,

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath, a

(d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n

ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon mae ardal ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar—

(a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd na'r AEE, ond

(b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r AEE.

(8) At ddibenion yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at "Member State" neu "State" yn Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig.

(9) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion os yw'r person hwnnw yn dod o fewn—

(a) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 9 (cwmpas personol) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

(c) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

## RHAN 2

### Categorïau

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig**

**2.**—(1) Person sydd—

(a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac nad yw'n dod o fewn paragraff 3,

(b) yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(c) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer

yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

**3.**—(1) Person—

(a) sy'n bodloni un o'r amodau a ganlyn—

(i) mae'r person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(ii) o ran y person—

(aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion,

(bb) mae'n ddinesydd Gwyddelig sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971, gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3), ac

(cc) byddai'n bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddir yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio pe bai'r person hwnnw yn gwneud cais am ganiatâd o'r fath, neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3),

(iii) o ran y person—

(aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion,

(bb) mae'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020, ac

(cc) mae ganddo hawl i breswylio'n barhaol, neu'n cael ei drin fel pe bai ganddo hawl o'r fath, at ddibenion Rheoliadau Mewnfudo (Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016, fel y mae'r Rheoliadau hynny yn parhau i gael effaith yn rhinwedd

Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 mewn perthynas â'r person hwnnw yn ystod y cyfnod perthnasol, neu

(iv) mae'r person yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio, pan fo'r aelod hwnnw o'r teulu wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(ii)(cc), ystyr "gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddir yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio" yw'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd o'r fath yn unol â pharagraff EU11 o Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(ii)(bb) ac (cc), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

**Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd**

**4.**—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â

phreswylio felly ers iddo gael ei gydnabod yn ffoadur, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur,

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i ganiatâd gael ei roi iddo i aros yn y Deyrnas Unedig, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur,

(b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches, a oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw,

(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches,

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i ganiatâd gael ei roi iddo i aros yn y Deyrnas Unedig, ac

(e) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

**Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd**

**5.**—(1) Person—

(a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil a ddiogelir;

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil

i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros—

(i) fel person a ddiogelir, yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo, neu

(ii) fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo;

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy’n blentyn a ddiogelir;

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) o dan 18 oed, a

(ii) yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros—

(aa) fel person a ddiogelir ar y dyddiad hwnnw (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo), neu

(bb) fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo neu adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 a’r rheolau mewnfudo;

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw’r dyddiad y gwnaeth person (“P”) gais am ganiatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy’n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;

(b) ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir” yw—

(i) person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,

(iii) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67,

(iv) person sydd â chaniatâd Calais, neu

(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;

(c) ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" yw person a chanddo—

(i) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig a roddwyd o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig a roddwyd o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo,

(ii) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig a roddwyd o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig a roddwyd o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw i'r rheolau mewnfudo,

(iii) caniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol cyfredol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid,

(iv) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu

(v) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan;

(d) ystyr "plentyn a ddiogelir" yw—

(i) plentyn i—

(aa) person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(bb) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,

(cc) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, neu

(dd) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;

(ii) plentyn i briod neu bartner sifil—

(aa) person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(bb) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, neu

(cc) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;

(e) ystyr "priod neu bartner sifil a ddiogelir" yw priod neu bartner sifil i—

(i) person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, neu

(iii) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan.

**Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant**

**6.**—(1) Person—

(a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir;

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir;

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â

phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i aros yn y Deyrnas Unedig;

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw’r dyddiad y gwnaeth person (“P”) gais am ganiatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy’n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir.

**Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o’u teuluoedd**

**7.**—(1) Person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(a) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros, a

(b) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Person—

(a) sy’n briod neu’n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(3) Person—

(a) sy’n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy’n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu’n blentyn i berson a oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw,

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i ganiatâd gael ei roi iddo

i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw person ("P")—

(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn(**1**), ac sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i'r person hwnnw ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(iii) â chaniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo, neu

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(**2**) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol,

(b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**3**)) mewn

---

(**1**) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd yn ôl disgresiwn o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

(**2**) Mae paragraff 276BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

(**3**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc.) 2004 (p. 19), Atodlen 2, paragraff 20(b), ac Atodlen 4, gan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9, gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo 2010 (O.S. 2010/21), Atodlen 1,

cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers iddo gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi.

**Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd**

**8.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE,

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd,

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii),

(iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE,

(v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v),

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

**9.**—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig neu weithiwr trawsffiniol o fewn ystyr "frontier worker" yn

---

paragraff 6, a chan Ddeddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9, paragraff 47.

rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020(**1**)—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE,

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd,

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii),

(iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE,

(v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v),

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

(3) Yn y paragraff hwn, mae disgrifiad o berson yn is-baragraff (1)(a)(i) i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai, pe bai'r person hwnnw yn wladolyn AEE neu'n wladolyn AEE yn unig, yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE.

**10.**—(1) Person—

(a) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, ac

**(c)** sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2011 ar symudiad rhydd gweithwyr o fewn yr

---

(**1**) O.S. 2020/1213.

Undeb(**1**) ("y Rheoliad Gweithwyr"), fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE(**2**), fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr mae'r cyfeiriad at "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**11.**—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr—

(a) mae'r cyfeiriad at "national of a Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon, a

(b) mae'r cyfeiriad ar "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig, ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

### Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall

**12.**—(1) Person—

---

(**1**) OJ Rhif L 141, 27.05.2011, t. 1, a ddiwygiwyd gan Reoliad (EU) 2016/589 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Ebrill 2016 (OJ L 107, 22.4.2016, t. 1) a Rheoliad (EU) 2019/1149 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 (OJ L 186, 11.7.2019, t. 21).

(**2**) Mae Atodiad V o Gytundeb yr AEE yn cyfeirio at Reoliad (EU) Rhif 492/2011, gydag addasiadau nad ydynt yn berthnasol at y dibenion hyn. Mae adran 3(1) a (2)(b) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) yn gwneud darpariaeth ar gyfer corffori Atodiadau i Gytundeb yr AEE yng nghyfraith ddomestig.

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig yn dechrau mewn gwirionedd,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, ac

(e) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw is-baragraff (3) neu (4) yn gymwys i'r person.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson sydd—

(a) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig,

(b) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu

(c) yn berson yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol,

sydd wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol, a

(b) sydd wedi mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir y mae'n wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(5) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswylio'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.

**13.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â’r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu,

(c) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy’n ffurfio Gibraltar, yr AEE a’r Swistir, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio Gibraltar, yr AEE a’r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir drwy gydol y cyfnod sy’n dechrau ar ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(d) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig yn dechrau mewn gwirionedd,

(e) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, ac

(f) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e) yn gyfan gwbl neu’n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw’r person hwnnw yn wladolyn o’r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o’r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu’n berson yr oedd ganddo’r hawl i breswylio’n barhaol, sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo’r hawl i breswylio’n barhaol, os yw’r

person wedi mynd i’r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir y mae’r person yn wladolyn ohoni neu y mae’r person y mae’n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), roedd gan berson yr hawl i breswylio’n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio’n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.

**Gwladolion o’r Deyrnas Unedig**

**14.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o’r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, neu

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i),

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir drwy gydol y cyfnod sy’n dechrau ar ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sy’n mynychu cwrs dynodedig,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu’n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir yn ystod unrhyw ran o’r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu’n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n cael ei drin fel pe bai’n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir yn unol â pharagraff 1(4).

(3) Pan fo person (“P”) yn dod o fewn is-baragraff (1)(a)(ii), rhaid i’r person y mae P yn aelod o’r teulu

mewn perthynas ag ef hefyd fodloni gofynion is-baragraff (1)(b) a (d).

### Gwladolion UE sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd

**15.**—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, a

(d) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

**16.** Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

**Plant gwladolion Swisaidd**

**17.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, a

(d) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**18.** Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 18(2) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

**Plant gweithwyr Twrcaidd**

**19.** Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

**20.** Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd ("T"), pan oedd T yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu,

(b) a oedd, yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn blentyn i T, a

(ii) yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

### Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

**21.**—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i'r person hwnnw,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sydd—

(i) yn blentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu

(ii) yn blentyn i briod neu bartner sifil gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) o dan 18 oed, a

(ii) yn blentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu’n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr “gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd—

(i) o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo—

(aa) paragraff UKR 9.1(**1**) (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(bb) paragraff UKR 19.1(**2**) (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(cc) paragraff UKR 27.1(**3**) (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

---

(**1**) Dilëwyd paragraff UKR 9.1 gan y Datganiad o Newidiadau i’r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 19 Chwefror 2024 (HC 556). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 556 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-556-19-february-2024.

(**2**) Mae’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**3**) Dilëwyd paragraff 27.1 gan y Datganiad o Newidiadau i’r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 26 Tachwedd 2024 (HC 334). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 334 ar

(dd) paragraff UKR 36.1(1) (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin), neu

(ii) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(aa) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a

(bb) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;

(b) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth person gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a arweiniodd at y person hwnnw yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir.

---

https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-334-26-november-2024.

(1) Agorodd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin ar 4 Chwefror 2025 ac mae wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 29.1 i UKR 38.1 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/ukraine-permission-extension-scheme-information.